# Dysgu Cymraeg
# Learn Welsh

Abertawe, Castell Nedd a Phort Talbot
Swansea, Neath and Port Talbot
Cyrsiau / Courses 2019 - 2020

01792 602 070 | learnwelsh@swansea.ac.uk



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ardal Bae Abertawe**
**Swansea Bay Region**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

# Shwmae!
## Croeso Cynnes i chi gyd!

Os ydych chi eisiau gwella eich Cymraeg, neu os ydych yn chwilio am wersi Cymraeg ar gyfer rhywun arall, mae'n hawdd dod o hyd i gwrs addas yn ardal Abertawe neu Chastell-nedd Port Talbot!

Cewch fanylion am yr holl gyrsiau newydd Hydref 2019 yn y llyfryn hwn – mae digon o ddewis. Mae'n bosib i chi: fynd i ddosbarth yn ystod y dydd neu gyda'r nos; dilyn cyrsiau ar gyflymdra hamddenol neu gyrsiau mwy dwys a heriol, gallwch fynychu gwersi mewn dosbarth neu ddilyn cwrs ar-lein neu gyfuniad o'r ddau ar gwrs 'cyfunol'. Caiff rhain eu dysgu gan ein tiwtoriaid profiadol a chefnogol sy'n ceisio sicrhau datblygiad sgiliau pob dysgwyr mewn modd adeiladol a diddorol. Mae ystod o adnoddau a chynnwys ar-lein buddiol ar gael hefyd sy'n cyfoethogi'r profiad o ddysgu.

Os ydych yn ddechreuwr pur neu ddim ond eisiau magu hyder a gwella'ch sgiliau iaith mae cwrs addas ar gael i chi!

### Y cwrs gorau i chi

Mae tri pheth pwysig i'w hystyried wrth ddewis cwrs Cymraeg:

- **y lefel**
- **y math o gwrs**
- **y cyflymdra**

### Un peth pwysig arall i'w ystyried yw y gost!

Eleni mae pob cwrs 32 wythnos - boed yn ddosbarthiadau 2 awr, 2+2 awr, 3, 4 neu 6 awr - ar gael am yr un pris: **£90 yn unig!**
- gyda gostyngiadau pellach i rai

# Shwmae!
## A very warm welcome to you all!

Whether you're looking for your first ever Welsh class, thinking of brushing up on what you learnt in school or returning to us for classes we have a course for you in Swansea or Neath Port Talbot!

In this booklet you'll find all the new Autumn 2019 courses – there's plenty to choose from. You'll be able to: attend daytime or evening classes; follow leisurely-paced courses or courses that are more intensive and challenging; attend a classroom-based course, an on-line course or a combination of both with our 'blended learning' courses. These are all delivered by our experienced and supportive tutors who ensure the development of each learners' skills in a constructive and interesting way. A range of resources and useful on-line content is also available to enrich the learning experience.

If you are a complete beginner or just want to gain confidence and improve your language we have a course for you!

### The right course for you

There are three things to consider when choosing a Welsh course:

- **the level**
- **the type of course**
- **the pace**

### Another important consideration is the cost!

This year every 32-week course (be it a 2 hour, 2+2 hour, 3, 4 or 6 hour class) is available for exactly the same price: **only £90!**
- with further concessions available for some







### Cwrs cyfunol
Mae'r cyrsiau hyn yn gofyn i chi fynychu'r dosbarthiadau wythnosol a gweithio ar dasgau arlein yn eich amser eich hun rhwng y gwersi. Byddwch yn cwblhau lefel cyfan o fewn y flwyddyn.

### Cwrs wythnos
Mae rhain yn gyrsiau mwy dwys sydd yn cwrdd am wythnos lawn sawl gwaith yn ystod y flwyddyn er mwyn gallu cwblhau lefel cyfan. (Trowch i dudalen 24 am fanylion)

### Cymraeg i'r teulu
Mae'r cwrs yma yn benodol i rieni a gofalwyr sydd eisiau defnyddio Cymraeg syml gyda phlant ifanc. Mae ar lefel tebyg i'r cwrs Mynediad ac felly ar ôl cwblhau'r cwrs mae'n bosib symud ymlaen i lefel Sylfaen.

Gair i Gall

### Ein cyngor ni:
Dewiswch gwrs sy'n addas i'ch amgylchiadau ond cofiwch hefyd cewch ganlyniadau cyflymach wrth ddewis y cwrs mwyaf dwys!

### Blended learning course (Combi)
These courses require that you attend the weekly class and work on-line on tasks in between lessons. This mode will allow you to complete a whole learning level within a year.

### Week course
This is a series of intermittent week-long classes meeting several times a year to complete a whole learning level. (See page 24 for details)

### Welsh for the family
This two year course is aimed at parents or carers who want to use simple Welsh phrases with young children. It is on a similar level to Mynediad (Entry) level, so once completed you can then progress directly to one of our Sylfaen (Foundation level) courses.

TOP TIP

### Our advice:
Choose a course that best suits your circumstances but remember the more intensive the course the quicker the results will be!

# Pa lefel? / Which level?

| | | |
|---|---|---|
| **Mynediad (Entry)** | Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, gyda'r pwyslais ar ddefnyddio ymadroddion elfennol. | Courses for beginners, where the emphasis is on very basic conversational Welsh. |
| **Sylfaen (Foundation)** | Cyfle i fyfyrwyr gryfhau eu dealltwriaeth a'u sgiliau siarad. | Students are able to strengthen their understanding and their conversational skills. |
| **Canolradd (Intermediate)** | Cyflwynir mwy o ysgrifennu, darllen a gwrando, ond mae'r prif bwyslais yn dal i fod ar siarad yr iaith. Erbyn diwedd y lefel yma byddwch yn gallu deall a sgwrsio yn rhwydd a byddwch yn gymharol rhugl. | Some more writing, reading and listening is introduced - but the emphasis remains on speaking the language. By the end of this level you'll be able to understand and converse quite freely, and be relatively fluent. |
| **Uwch (Advanced)** | Mae cyrsiau hyn yn helpu myfyrwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth, i fireinio eu sgiliau a chryfhau eu sgiliau ysgrifennu. | These courses help students to underpin their knowledge, continue to refine their conversational abilities and further strengthen their writing skills. |
| **Hyfedredd (Proficiency)** | Ar gyfer dysgwyr profiadol - yn ogystal â siaradwyr rhugl - sydd eisiau miniogi eu sgiliau a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau. | These courses are aimed at experienced learners - as well as fluent Welsh-speakers - who want to refine their skills and gain the confidence to use the language in a variety of contexts. |



**Ansicr o'ch lefel neu pa fath o gwrs sydd orau i chi?**
Cysylltwch â ni am gyngor gan aelod o'n tîm: 01792 60 20 70
dysgucymraeg@abertawe.ac.uk

**Unsure of your level or the right type of course for you?**
Call us for advice from one of our team: 01792 60 20 70
learnwelsh@swansea.ac.uk

Beth yw'r pris?

# Dim ond £90 am bob cwrs!!

**Prisiau gostyngol:**
Gallwn gynnig gostyngiad pellach o 40% oddi ar y pris llawn os ydych yn derbyn **Pensiwn**, yn **Fyfyriwr/Prentis** llawn-amser neu'n derbyn **Budd-daliadau Gwladol** (e.e. credyd cynhwysol, budd-dal anabledd, di-waith, gofalwyr, credydau pensiwn ac ati).

**Gall hynny olygu pris o £54 yn unig am y flwyddyn!**

Defnyddiwch y codau disgownt canlynol wrth ymgofrestru:
Pensiynwyr = **PEN19**
Myfyrywr/Prentisiaid = **MYF19**
Derbynwyr budd-daliadau = **BUDD19**

**Dewiswch y disgownt perthnasol mwyaf manteisiol i'ch sefyllfa – dim ond un disgownt allwch chi ddefnyddio ar bob cwrs.**

Byddwn yn gofyn i chi ddarparu dogfennau swyddogol i brofi eich bod yn gymwys i dderbyn pris gostyngol.

Mae cronfa fach ar gael i helpu rhai sydd angen cymorth â chostau dysgu. Mae cefnogaeth ariannol ar gael gan y Ganolfan Genelaethol hefyd i helpu gyda chostau ychwanegol (cewch fanylion pellach ar y wefan).

Os allwch chi berswadio eich cyflogwr i'ch rhyddhau i ddysgu e.e. fel rhan o gynllun datblygu personol yn y gweithle, neu os oes nifer o'ch cydweithwyr sy'n gallu dod at ei gilydd i ffurfio carfan, yna cysylltwch â ni i drafod y posibiliadau i'ch gweithle chi.

What's the price?

# Only £90 for each course

**Concessions:**
We can offer a further 40% discount off the full price if you receive a **Pension**, are a full-time **Student/Apprentice** or receive **State Benefits** (e.g. universal credit, disability/disablement benefit, unemployment benefit, carers allowance, pension credits etc.)

**That means a price of only £54 for the year!**

Use the following discount codes during registration:
Pensioners = **PEN19**
Students/Apprentices = **MYF19**
Benefit Claimants = **BUDD19**

**Choose the most advantageous discount to your personal situation - only one discount can be used on each course.**

You will be required to provide official documents to prove that you qualify for a discounted rate.

We also have a small bursary fund to help a few people with learning costs, and the National Centre for Learning Welsh also has a fund to help some learners with related learning expenses (details can be found on the website).

If you are able to persuade your employer to enable you to attend a class e.g. as part of a workplace personal development scheme, or if there are several of your work colleagues who can come together to form a viable cohort, then please get in touch to discuss workplace learning possibilities.





# Sut i gofrestru ar gwrs

Cewch fanylion ein cyrsiau yn y llyfryn yma ond mae'n hawdd chwilio a chofrestru ar gwrs arlein.
Ewch i **https://dysgucymraeg.cymru/aba**

**I chwilo am gwrs:**
Cliciwch y botwm i bori drwy ein cyrsiau

Chwilio am gwrs

Gallwch chwilio am gwrs penodol drwy fewnbynnu'r cod cwrs yn y blwch 'Allweddair'. Gallwch wedyn greu cyfrif a chofrestru ar gwrs:

Creu cyfrif | Mewngofnodi

# How to register on a course

You'll find information about courses in this booklet however it's very easy to search and register on a course online.
Go to **https://learnwelsh.cymru/sbr**

**To search for a course:**
Click the button to browse through our courses

Search for a course

You can search for a specific course by using the course code in the 'Keyword' box. You can then create an account and register on a course:

Create an account | Login



# Cyrsiau Ar-lein (Online courses)



**Entry Course: Entry Course Part 1 / Cwrs Mynediad Arlein Rhan 1**
If you find it difficult to attend a local weekly class, this online course for begginers may be the answer. Using Swansea University's Mynediad course, you'll be able to study on-line independently with online resources and have occasional guidance sessions with a tutor via skype. You can register at any time during the year, but we advise that you aim to complete the course within the space of 10 months.
Cost: **£90** | Course code: **DCAL0119**

**Cwrs Gloywi Iaith**
Dyma gwrs ar gyfer siaradwyr rhugl sydd eisiau meistroli y rheolau gramadegol a phatrymau iaith safonol. Mae disgwyl i fyfyrwyr gwblhau cyfres o dasgau ar-lein ynghyd â rhai tasgau ysgrifenedig i'w danfon at tiwtor personol. (This is an online language improvement course for fluent Welsh speakers).
Cost: £45 | Code: DCAL0219





# Cyrsiau Cymunedol – addas i ddysgwyr Uwch a siaradwyr rhugl (Community Courses)

**The following lists are poetry, literature and cultural courses suitable for Advanced Level learners and fluent Welsh-speakers.**

- **Llenyddiaeth Abertawe – yr 20fed Ganrif** (Swansea Literature – the 20th Century)
  O'r môr i'r mynydd, o'r carchar i'r blitz, o'r dafarn i'r capel, o'r pentrefi i'r ddinas: mae profiadau'r ganrif wedi cael eu mynegi gan feirdd a llenorion Abertawe. Cwrs hwyliog, anffurfiol dan arweiniad Heini Gruffudd yn edrych ar sut mae Abertawe a'r byd wedi newid o ran amgylchiadau a syniadau.
  Cost: **£80** | Ymholiadau a cofrestru: **01792 602070**

| Dydd | Amser | Gorffen | Wythnosau | Oriau yr wythnnos |
|---|---|---|---|---|
| **Abertawe:** Tŷ Tawe, 9 Ffordd Christina, Abertawe, SA1 4EW | | | | |
| Iau | 10:00 | Mawrth 2020 | 16 | 2 |

- **Creu ar Gynghanedd** (Composing on Cynghanedd)
  Cyfle i feistroli'r gynghanedd a chreu cerddi ar wahanol fesurau dan arweiniad Y Prifardd Robat Powell. Croeso i ddysgwyr uwch a siaradwyr rhugl.
  Cost: **£50** | Ymholiadau a cofrestru: **01792 602070**

| Dydd | Amser | Gorffen | Wythnosau | Oriau yr wythnnos |
|---|---|---|---|---|
| **Abertawe:** Tŷ Tawe, 9 Ffordd Christina, Abertawe, SA1 4EW | | | | |
| Llun | 19:00 | 24/02/2020 | 10 | 2 |

- **Cymru Ddoe a Heddiw (Wales Yesterday and Today)**
  Cyfle arbennig tra'n ymarfer eich Cymraeg i ddysgu mwy am hanes a diwylliant Cymru yng nghwmni nifer o siaradwyr gwadd arbennig. Anelir y cwrs hwn yn arbennig ar gyfer dysgwyr lefel uwch a graenus ac mae croeso hefyd i siaradwyr rhugl ymuno. Cyfres o sesiynau a gynhelir yn Nhŷ Tawe, Abertawe a Thŷ'r Gwrhyd, Pontardawe bob pythefnos. Chwiliwch y wefan dysgucymraeg.cymru neu gysylltwch â'rswyddfa am fwy o wybodaeth.

| Dydd | Amser | Gorffen | Wythnosau | Oriau yr wythnnos | Côd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pontardawe:** Tŷ'r Gwrhyd, Stryd Holly, Pontardawe, SA8 4ET | | | | | |
| Llun | 18:00 | 18/11/2019 | 4 | 2 | DCDA0119 |
| **Abertawe:** Tŷ Tawe, 9 Ffordd Christina, Abertawe, SA1 4EW | | | | | |
| Mawrth | 13.00 | 26/11/2019 | 4 | 2 | DCDA0219 |

## Cyrsiau Dydd / Wythnos / Pasg a Haf

**Mae DCABA yn cynnig cyfres o gyrsiau atodol i atgyfnerthu eich dysgu wythnosol, a cyrsiau wythnos dwys i'r rhai sydd methu dod i ddosbarth bob wythnos.**

### Cymraeg Mewn Wythnos

Mae'r cyrsiau wythnos dwys yma (ar bob lefel astudiaeth) yn cael eu cynnal yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol yn arferol, a gallwch anelu at gwblhau y 5 cwrs llawn (lefel cyfan) o fewn blwyddyn.

**Neu** – ail-ymunwch fel sy'n gyfleus gan symud ymlaen i'r cam nesaf yn ysbeidiol. Gallwch ddilyn y cyrsiau hyn fel cyrsiau unigol neu gall dysgwyr ar gyrsiau wythnosol arferol eu defnyddio fel cyrsiau adolygu/dal i fyny. Mae pob cwrs yn cael ei gynnal ar **Gampws Singleton, Prifysgol Abertawe SA2 8PP**

## Day courses / Week courses / Easter & Summer Courses

**LWSBR offer a range of additional courses to complement your weekly classes, and intensive week courses for those who cannot come to regular weekly classes.**

### Welsh in a Week

These week-long intensive courses (at each level of study) are usually held during school-holiday periods, and you can aim to complete the whole 5 courses (one complete level) within a year.

**Alternatively** - re-join and progress to the next class intermittently (a hop-on/hop-off model). These courses can be followed as stand-alone courses or indeed as intensive revision/catch-up courses for those on regular weekly classes. All classes are held at **Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP.**

| Dyddiadau Cymraeg Mewn Wythnos/Welsh in a Week Dates | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Wythnos yn dechrau / Week commencing | 28/10/2019 | 17/02/2020 | 14/04/2020 | 26/05/2020 | 20/07/2020 |

Gair i Gall

Yn y 'chwilotydd cwrs' ar y wefan
- dewiswch Ardal Bae Abertawe o'r gwymplen
- dewiswch y lefel addas
- pwyswch y botwm chwilio
- ac yna teipiwch "wythnos" yn y blwch chwiliad allweddair i gyfyngu eich canlyniadau

TOP TIP

In the website's 'course finder'
- select 'Swansea Bay Region' from the provider dropdown menu
- select appropriate level
- hit search button
- then type "week" in the keyword search window to narrow your search results

### Sadwrn Siarad

Ar amrywiol Sadyrnau gydol y flwyddyn, bydd y cyrsiau gweithdy undydd yma yn cael eu cynnal, gan amlaf ar thema gwahanol. O dan ofal y tiwtor, defnyddir nifer o ymarferiadau pwrpasol yn ystod y dydd gyda'r nod o'ch helpu i sgwrsio ac ymateb mewn sefyllfaoedd gwahanol gan gryfhau eich hyder i ddefnyddio eich Cymraeg y tu hwnt i'r dosbarth.

### Saturday Workshops

At various Saturdays throughout the year, these one-day workshop courses are held usually on a specific theme. Under the guidance of a tutor, a variety of appropriate to level exercises are used during the day aimed at helping you to converse and respond in different situations, boosting your confidence beyond the classroom to give your Welsh a go.

| Sadwrn Siarad Dates/Dyddiadau Sadwrn Siarad: | |
|---|---|
| 07/12/2019 | Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP |
| 25/01/2020 | YMCA, Pen y Dre, Neath, SA11 3GH |
| 07/03/2020 | Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP |
| 25/04/2020 | Block G Neath Port Talbot College, Neath College, Dŵr y Felin Road, Neath, SA10 7RF |

Gair i Gall

Dilynwch gamau y Gair i Gall ar dudalen 25, gan newid y gair "wythnos" i "Sadwrn"

TOP TIP

Follow the steps in the Top Tip on page 25, substituting "week" with "Sadwrn"

### Cwrs Adolygu Arholiad

Cwrs undydd ar bob lefel i'ch paratoi ar gyfer sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion CBAC.

### Exam Revision Course

One-day course (at each level) to help you prepare for sitting the WJEC Welsh for Adults Exams.

| Date/Dyddiad | |
|---|---|
| 16/05/2020 | Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP |

Gair i Gall

Dilynwch gamau y Gair i Gall ar dudalen 25, gan newid y gair "wythnos" i "adolygu"

TOP TIP

Follow the steps in the first Top Tip on page 25, substituting "week" with "revision"

### Cyrsiau adolygu Pasg a Haf

Mae'r cyrsiau cyfnod gwyliau hyn yn cael eu cynnig ar bob lefel i'ch cynorthwyo i atgyfnerthu beth ydych chi wedi ei ddysgu hyd yma drwy amryw o weithgareddau hwyliog. Bydd pob cwrs yn cael ei gynnal ar **Gampws Singleton Prifysgol Abertawe, SA2 8PP**

### Easter & Summer Revision Courses

These holiday-time courses offered on all levels of study will help you consolidate what you have learned so far through a variety of enjoyable activities. All classes are held at **Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP.**

| Dates/Dyddiadau | |
|---|---|
| 06/04/2020 - 08/04/2020 | Swansea University, Singleton Park, Swansea, SA2 8PP |
| 06/07/2020 - 10/07/2020 | Cwrs Haf/Summer Courses |

Gair i Gall

Dilynwch gamau y Gair i Gall ar dudalen 25, gan newid y gair "wythnos" i "Pasg" neu "Haf"

TOP TIP

Follow the steps in the first Top Tip on page 25, substituting "week" with either "Easter" or "Summer"





## Ymarfer eich Cymraeg tu hwnt i'r dosbarth

Er mwyn dysgu iaith yn effeithiol mae angen ei hymarfer yn gyson y tu hwnt i'r dosbarth ac mor aml â phosib. Rydym ni'n ystyried hyn yn rhan creiddiol o'r broses ddysgu, gan ei fod yn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle i ddatblygu a chryfhau ymhellach beth maent wedi ei ddysgu.
Rydym yn trefnu rhaglen lawn o **ddigwyddiadau a gweithgareddau hwyliog a chymdeithasol** i'ch helpu i gyflawni hyn. Unwaith i chi ymgofrestru ar gwrs, cewch eich ychwanegu at ein rhestr e-bost i dderbyn newyddlen misol fydd yn amlinellu'r digwyddiadau sydd ar fin digwydd, a gallwch hefyd ddilyn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i gadw'n gyfredol.

## Practising your Welsh beyond the classroom

In order to learn a language effectively, it is vitally important to get plenty of practise as often as you can outside the classroom. We consider this an integral part of the learning process, as it ensures that learners have the opportunity to further develop and underpin their acquired skills.
We organise a programme of regular light-hearted **social events and activities** to help you achieve this. Once enrolled on a course, you'll be added to our e-mailing list to receive our monthly newsletter detailing upcoming events, and you can also follow our social media accounts to keep yourself up-to-date.

# Dim byd addas?

Rydym yn cychwyn cyrsiau i ddechreuwyr newydd trwy gydol y flwyddyn felly cadwch lygad ar y wefan a'n cyfryngau cymdeithasol am fwy o ddosbarthiadau ym mis Tachwedd 2019, Ionawr 2020 a thu hwnt!

# Haven't found what you're looking for?

We start new beginners classes throughout the year so keep an eye out on the website and our social media for more classes in November 2019, January 2020 and beyond!

**www.facebook.com/LearnCymraegABA**

**https://twitter.com/learncymraegABA**

**www.instagram.com/LearnCymraegABA**